**Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)**
**Cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu Data a Monitro**
**Stadiwm Swalec, Caerdydd, Dydd Mawrth 9 Gorffennaf 2019**
**Crynodeb o'r cyfarfod**

## 1. Croeso

Estynnodd Llywodraeth Cymru groeso i'r sawl a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

## 2. Trosolwg o'r Bil a diweddariad yn ei gylch

Rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad i'r grŵp ynghylch hynt y Bil.

## 3. Cylch gwaith

Gofynnwyd i aelodau'r grŵp ystyried y cylch gwaith drafft. Pwrpas y grŵp yw nodi effeithiau posibl y ddeddfwriaeth ar wasanaethau cyhoeddus, a chreu ffrydiau gwaith yn y sefydliadau hynny er mwyn datblygu dull o fonitro'r effeithiau. Cytunwyd y byddai'r aelodau yn ystyried manylion y cylch gwaith drafft ac y byddent yn rhoi adborth ynghylch unrhyw ddiwygiadau er mwyn gallu cytuno ar y cylch gwaith terfynol yn y cyfarfod nesaf.

## 4. Diweddariad Llywodraeth Cymru ynghylch y gwaith a gyflawnwyd hyd yma i asesu effaith

Rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad i'r grŵp ynghylch y gwaith a oedd wedi'i gyflawni hyd yma gyda data heddluoedd a Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a'r gwaith sy'n cael ei gyflawni gyda rhai timau gwasanaethau cymdeithasol er mwyn ceisio llunio amcangyfrifon sylfaenol ar gyfer niferoedd yr atgyfeiriadau ar hyn o bryd sy'n ymwneud â chosb gorfforol resymol.

Cafwyd trafodaeth ynghylch llunio amcangyfrifon sylfaenol ar gyfer niferoedd yr atgyfeiriadau ar hyn o bryd sy'n ymwneud â chosb gorfforol, ac ynghylch amryw ddulliau y gellid eu defnyddio i gadarnhau niferoedd yr atgyfeiriadau ac ynghylch y problemau sy'n gysylltiedig â nhw. Ar sail yr hyn a ddysgwyd o'r gwaith cychwynnol, roedd problemau posibl yr oedd angen eu hystyried ymhellach wedi cael eu nodi. Un broblem oedd y perygl y gallai digwyddiad gael ei gyfrif ddwywaith neu fwy oherwydd ei fod yn cael ei gofnodi yng nghyswllt y plentyn a oedd yn rhan o'r digwyddiad a hefyd yng nghyswllt unrhyw blant eraill a oedd yn rhan o gyd-destun y digwyddiad, e.e. brodyr a/neu chwiorydd, aelodau'r tîm, ac ati. Gofynnwyd i aelodau'r grŵp ystyried hynny ac ystyried unrhyw broblemau posibl eraill y byddent yn eu nodi, ac adrodd yn ôl i'r grŵp.

## 5. Nodi sefydliadau allweddol ac effaith bosibl y ddeddfwriaeth

Nodwyd bod gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu yn sefydliadau allweddol ar gyfer casglu data, a nodwyd y byddai angen dull o gasglu data er mwyn cael llinell sylfaenol gadarn ac y byddai angen parhau i gasglu data at ddibenion monitro pe bai'r Bil yn cael ei basio a phe bai'r gyfraith yn newid.

Cafwyd trafodaeth ynghylch yr heriau i bob un o'r prif sectorau o safbwynt casglu data, a oedd yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol, y sector iechyd, y sector

cyfiawnder, yr heddlu a’r sector addysg. Trafodwyd y modd y caiff data ei gasglu ar hyn o bryd, y systemau a ddefnyddir gan yr amryw wasanaethau, y gwahaniaethau rhwng diffiniadau, a dulliau casglu. Cytunwyd y byddai pob un o’r aelodau yn ystyried y materion hynny ac y byddent yn adrodd yn ôl ynghylch prosesau ac atebion posibl i’r problemau a nodwyd. Byddai Llywodraeth Cymru yn cysylltu â sefydliadau na chawsant eu cynrychioli yn y cyfarfod, er mwyn trafod y materion hyn, byddai’n ystyried cael ystod ehangach o gynrychiolwyr ar gyfer y grŵp a byddai hefyd yn ystyried atebion posibl ar gyfer casglu data systemau.